# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 30AIN MEHEFIN, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Gwener, 20 Mehefin 2025)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Elfed Williams
Gwynfor Owen
Gwilym Evans

Gareth Tudor Jones
Huw Rowlands
Alan Jones Evans
Arwyn Herald Roberts
Meryl Roberts

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Gareth Williams
John Brynmor Hughes
Hefin Underwood

Angela Russell
Anwen J. Davies

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025/26.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025/26.

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

To receive any declarations of personal interest.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

## 6. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 10fed o Fawrth 2025 fel rhai cywir

## 7. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG 6 - 16

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

a) 30-04-2025

b) 07-02-2025

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 10-03-25**

**Presenoldeb:**

Cadeirydd: Cynghorydd Elfed Williams
Is-gadeirydd: Cynghorydd Gwynfor Owen

**Cynghorwyr:** Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Edgar Owen, Huw Rowlands, Arwyn Herald Roberts, Hefin Underwood a Gareth Williams

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Andrew Parry (Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Safonau Masnach)**,** Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Anwen Davies, Cyng. Alan Jones Evans a'r Cyng. Angela Russell

Cydymdeimlwyd gyda'r Cynghorydd Angela Russell oedd wedi colli ei gŵr yn ddiweddar

Dymunwyd y gorau a diolchwyd i'r Cyng. Linda Ann Jones, cyn Aelod o'r Pwyllgorau Trwyddedu am ei chefnogaeth i'r Pwyllgorau a'r Is-bwyllgorau Trwyddedu yn ei chyfnod fel Aelod Plaid Cymru.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 11eg Tachwedd 2024 fel rhai cywir

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion Is Bwyllgorau Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd 21ain Ionawr 2025, 2il o Ragfyr 2024 a Tachwedd 11eg 2024 fel rhai cywir.

Mewn ymateb i sylw i sicrhau llais yr ymgeisydd mewn gwrandawiadau yn hytrach na llais eu cynrychiolydd, nodwyd bod gan aelodau'r Is-bwyllgor yr hawl i herio'r cynrychiolydd a gofyn i'r ymgeisydd gyflwyno / cynnig sylwadau ar y cais.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â mewnbwn gan Gynghorau Cymuned i geisiadau trwydded eiddo, nodwyd bod Cynghorau Cymuned yn rhan o'r broses ymgynghori statudol a'u bod yn cael cyfle i fynegi barn. Ategwyd nad oedd amserlen cyfarfodydd Cynghorau Cymuned bob tro yn cyd-fynd ag amser yr ymgynghoriad, ond bod cyfle iddynt gynnig sylwadau.

Petai sylwadau yn cael eu cyflwyno, bydd gwahoddiad i gynrychiolydd o'r Cyngor Cymuned fynychu'r gwrandawiad i gyflwyno eu sylwadau ar lafar.

Cymerodd y Cyng Elfed Williams y cyfle i ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor ac i'r Swyddogion am eu cefnogaeth tra'n Gadeirydd y Pwyllgorau Trwyddedu.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.40am a daeth i ben am 10:50

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**Ebrill 30ain 2025**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Elfed Williams (Cadeirydd), Alan Jones Evans ac Arwyn Herald Roberts

**Swyddogion:** Nia Grisdale (Rheolwr Adran Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Jac Ynyr Evans Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Tom Leslie Yr ymgeisydd
Lisa Gilligan Cynrychiolydd yr ymgeisydd

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nia Chilton (Preswylydd Lleol)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO: Mickey's Beach Cafe, The Boatyard and Shipway, Bwlchtocyn, Abersoch**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn manylu ar fwriad i werthu alcohol yn ddyddiol yn ystod y tymhorau prysura o'r flwyddyn. Adroddwyd bod yr ymgeisydd yn ceisio am drwydded eiddo i werthu alcohol (ar ac oddi ar yr eiddo) o 10:00 - 17:30, o ddydd Llun i Sul.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Adroddwyd nad oedd yr Awdurdodau Cyfrifol wedi cyflwyno sylwadau ac er i Heddlu Gogledd Cymru amlygu pryderon cychwynnol, bod yr ymgeisydd bellach wedi cytuno i'r mesurau i ymateb i'r pryderon hynny ac felly'r Heddlu wedi eu tynnu yn ôl.

Tynnwyd sylw at ymatebion a dderbyniwyd gan Aelodau o'r Cyhoedd a Chyngor Cymuned Llanengan. Roedd y cyhoedd, yn pryderu nad oedd toiledau ar y safle, ac er bod cwsmeriaid yn defnyddio toiledau cyhoeddus gerllaw, nid oedd gan y caffi reolaeth dros y toiledau hyn ac y gallent gau ar unrhyw adeg. Ystyriwyd y gall hyn arwain at y posibilrwydd o achosi trafferthion gwastraff dynol yn yr ardal. Amlygwyd pryder hefyd,

- bod yr ardal wedi gweld cynnydd mewn gwastraff yn cael ei wasgaru wrth y caffi ac y bydd potensial i hyn waethygu os daw mwy o bobl i yfed yno
- pryder o gynnydd mewn gwydr wedi malu a phlastig ar y traeth ger y caffi
- gyda'r traeth o flaen y caffi yn un poblogaidd iawn hefo teuluoedd, ystyriwyd y gall gwerthu alcohol gynyddu'r potensial i bobl yfed a gweithredu cychod pŵer yn yr ardal sydd yn beryglus i unrhyw un sydd yn nofio yn y môr.

Roedd sylwadau Cyngor Cymuned Llanengan yn pryderu am

- yfed ar y traeth gan nodi nad yw peiriannau (e.e. cychod cyflym/badau dwr personol) ac alcohol yn cyd-fynd
- pryder am ddiffyg toiledau ar y safle - mater a gododd y Cyngor sawl gwaith ers pan sefydlwyd caffi ar y safle
- gall gwerthu alcohol gynyddu poblogrwydd Traeth Marchros fydd o ganlyniad yn creu traffig ychwanegol ar ffordd gul, droellog sydd heb le digonol i ddau gar basio'i gilydd.

Roedd y swyddogion yn nodi, yn unol â Deddf Drwyddedu 2003, argymhellir fod y Pwyllgor yn ystyried sylwadau'r ymatebwyr, ac ymateb yr ymgeisydd i'r pryderon - ac yn caniatáu'r cais. Adroddwyd bod alcohol wedi ei werthu ar y safle ar nifer o achlysuron yr haf diwethaf drwy ddefnyddio Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro. Ni dderbyniwyd cwynion gan yr Awdurdod Trwyddedu nac Uned Gwarchod y Cyhoedd yn dilyn sawl digwyddiad a ganiateir yn defnyddio Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.
- Swyddog cyfreithiol i grynhoi gofynion y cais

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â diffyg toiledau ar y safle a'r pryder y bydd y toiledau cyhoeddus yn cau, nodwyd yr angen i drafod y cais yn unol â'r sefyllfa bresennol.

ch) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:

- Bod toiled ar y safle
- Bod cais am drwydded wedi ei gyflwyno yn 2024, ond yn dilyn nifer o gyfarfodydd gyda swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Heddlu Gogledd Cymru i drafod cwynion a phryderon, tynnwyd y cais yn ôl a phenderfynwyd defnyddio

Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro. Gwerthwyd alcohol ar y safle ar 21 achlysur dros yr Haf ac ni dderbyniwyd cwynion yn dilyn y digwyddiadau hyn.

- Bod cytundeb masnachol ar gyfer gwaredu gwastraff yn ei le
- Nid oes bwriad defnyddio gwydr
- Bod cydweithio da wedi bod gyda'r Awdurdod Lleol i geisio lliniaru pryderon
- Bod yr ymgeisydd yn cynnig addasu'r amser cau i 1700 – hyn yn amlygu parodrwydd i gyfarch pryderon

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sut bydd yr ymgeisydd yn cyfarch yr egwyddor o rwystro niwsans cyhoeddus, nodwyd nad oedd bwriad chwarae cerddoriaeth uchel, bod yr oriau agor wedi eu cyfyngu, ac yn y cyfnod 21 diwrnod o ddefnydd Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro ni fu i'r Adran Iechyd yr Amgylchedd na'r Awdurdod Lleol dderbyn cwynion. Ategwyd y bydd staff yn derbyn hyfforddiant dogfennol rheolaidd ac er nad yw'r caffi yn agor gyda'r nos, bydd staff ar y safle hyd 1900 yn glanhau yn unig. Bydd y fenter yn un cyfrifol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r nifer pobl fydd ar y safle, nodwyd bod lle ar gyfer 20 - 25 o bobl i eistedd o gwmpas y byrddau, ond bod llawer o fynd a dod gyda phobl yn symud ymlaen.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r casgliadau sbwriel / gwastraff, nodwyd bod casgliad gwastraff yn cael ei wneud i gyd mewn un ymweliad a hynny ar ôl 8am. Mewn ymateb i bryder preswylydd agos oedd yn nodi nad oedd gan y caffi ganiatâd i adael bin ar ei dir, nodwyd bod y biniau yn cael eu storio ar dir ac yn cael eu rhoi allan am gasgliad gerllaw'r maes parcio. Ategodd yr ymgeisydd nad oedd yn ymwybodol o'r hawliau tir, ond y byddai yn barod i symud y biniau i leoliad arall a chynnal trafodaeth gyda'r tirfeddiannwr.

d) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt:

Mr Jeremy Beddows

- Mai ef oedd perchennog y tir gerllaw'r caffi a'i eiddo wedi ei leoli rhyw 1metr i ffwrdd o'r safle
- Bod ardal y biniau ar ei gwrtil
- Bod y loriau bin yn gorfod teithio ar hyd ffordd gul iawn sydd hefyd yn arwain at fynediad i'r traeth
- Byddai cynnal sgwrs yn addas fel modd o ddatrys y sefyllfa
- Yn croesawu bod toiled ar y safle - y toiledau cyhoeddus yn bell o'r traeth ac felly'r tir gerllaw a'i ardd yn cael ei faeddu
- Bod y traeth yn un poblogaidd – ei fod yn gweld cynnydd mewn defnydd badau dwr a nifer ceir ar y safle ac felly angen ystyried pryderon o yfed a gyrru
- Croesawu na fydd gwydr yn cael ei ddefnyddio – hapus gyda defnydd polycarbonadau
- Bod wal uchel iawn tu ôl i'r caffi a phobl yn mynd i eistedd yno gyda diodydd – angen arwydd i amlygu perygl

**Mr Peter Baines**

- Mai ef oedd y preswylydd lleol agosaf i'r caffi
- Bod cynnydd mewn lefel sŵn symud biniau dros gyfnod y Digwyddiadau Dros Dro
- Bydd newid i naws yr ardal yn dilyn cyflwyniad alcohol
- Nid yw yfed a gyrru badau dwr yn cael ei blismona
- Nid yw gwerthiant alcohol oddi ar y safle yn cael ei reoli yn dda
- Byddai mwy o loriau yn dod i'r ardal os bydd mwy o ddarparwyr cynnyrch. Yr holl ddanfoniadau yn cael eu dadlwytho yn y maes parcio

- Bod y traeth o fewn AHNE
- Bod y busnes yn dueddol o gymryd mantais o sefyllfa
- Er nad oedd trafferthion yn ystod y digwyddiadau dros dro, bod ymdeimlad y bydd pethau yn mynd allan o reolaeth
- Nad oedd unrhyw drafodaethau wedi eu cynnal cyn y gwrandawiad

Manteisiodd y Rheolwr Trwyddedu ar y cyfle i grynhoi ei hachos, gan nodi bod yr ymgeisydd wedi cytuno i amodau ychwanegol ac wedi rhoi sicrwydd na fydd cerddoriaeth uchel yn cael ei chwarae. Nodwyd hefyd y byddai yn annog i'r ymgeisydd gydweithio gyda chymdogion

Manteisiodd cynrychiolydd yr ymgeisydd ar y cyfle i grynhoi ei hachos, gan nodi eu bod wedi ymgysylltu gyda'r Awdurdod Lleol a'r Heddlu ac nad oedd unrhyw ymgais gan yr ymgeisydd i geisio cymryd mantais o'r sefyllfa. Ategodd nad oedd bwriad i redeg y safle fel tafarn ac na ddylai'r fenter gael effaith negyddol ar ymwelwyr. Nododd bod yr ymgeisydd yn barod iawn i gydweithio gyda thrigolion lleol a bod mesurau wedi cael eu cynnig i liniaru'r pryderon. Nododd hefyd nad oedd gwrthwynebiadau wedi eu derbyn gan yr Awdurdodau Cyfrifol.

dd) Cymerodd y Swyddog Cyfreithiol y cyfle i grynhoi gofynion y cais

- Cais i gyflawni alcohol ar ac oddi ar yr eiddo
- Bod cynnig i gytuno i oriau trwyddedig 1000 - 17000 Dydd Llun i Ddydd Sul (oriau agor 1000 - 1800
- Bod amodau yn cynnwys dim gwydr, hyfforddiant priodol i staff, gweithredu Her 25, dim cerddoriaeth i'w chwarae yn uchel, cais i gwsmeriaid ymadael yn ddistaw a pharchu cymdogion, bod TCC ar y safle a bod defnydd toiledau ar yr eiddo.
- Nododd bod sefyllfa'r wal i gefn yr eiddo, a'r awgrym am arwydd diogelwch yn fater i'r Adran Amgylchedd neu Cyngor Cymuned

ee) Ymneilltuodd cynrychiolydd yr ymgeisydd a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNIAD: Caniatáu y cais**

**Oriau Agor:**

**Dydd Sul 10:00 - 18:00**
**Dydd Llun 10:00 -18:00**
**Dydd Mawrth 10:00 -18:00**
**Dydd Mercher 10:00 -18:00**

**Dydd Iau 10:00 - 18:00**
**Dydd Gwener  10:00 -18:00**
**Dydd Sadwrn 10:00 -18:00**

**Gweithgareddau Trwyddedig**

**Cyflenwi Alcohol ar ac oddi ar yr Eiddo**

**Dydd Sul 10:00 - 17:00**
**Dydd Llun 10:00 17:00**
**Dydd Mawrth 10:00 - 17:00**
**Dydd Mercher 10:00 - 17:00**
**Dydd Iau 10:00 – 17:00**
**Dydd Gwener 10:00 - 17:00**
**Dydd Sadwrn 10:00 - 17:00**

**Y mesurau ychwanegol, fel y nodir yn rhan M y cais, i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded:**

- **Hyfforddiant Staff**
- **Her 25**
- **Bydd y safle yn gweithredu polisi dim gwydr, gyda'r holl alcohol a werthir yn cael ei wneud mewn defnydd polycarbonadau**
- **Dim cerddoriaeth uchel i'w chwarae ar y safle**
- **Staff i ofyn i gwsmeriaid adael yn dawel a pharchu trigolion lleol**
- **TCC yn weithredol ar y safle**

**Mesurau ychwanegol a gytunwyd gyda Heddlu Gogledd Cymru**

- **Daw'r cyflenwadau alcohol gan gyflenwyr bwyd presennol - ni ragwelir cyflenwadau ychwanegol fydd yn arwain at gynnydd mewn traffig**
- **Mae sbwriel yn rhan o gasgliad cytundeb masnachol ar ddydd Mawrth a dydd Gwener, ac ni fydd yn digwydd y tu allan i'r oriau 17:00 – 08:00 fel sy'n arferol**

Yng nghyd-destun **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn**, ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hon.

Yng nghyd-destun materion **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hon.

Yng nghyd-destun **Atal niwsans cyhoeddus**, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau gan gymdogion yr eiddo oedd yn mynegi pryderon am y potensial o ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion niwsans cyhoeddus yn deillio o ganiatáu'r cais. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau gan Adran Gwarchod y Cyhoedd ac ni chyflwynwyd tystiolaeth o ymddygiad gwrthgymdeithasol na chynnydd mewn lefelau sŵn.

Wrth nodi'r pryderon dilys a fynegwyd gan y cymdogion a thrigolion lleol, nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod tystiolaeth yn dangos bod niwsans cyhoeddus yn cael ei gyflawni. Roedd yr Is-bwyllgor yn annog yr ymgeisydd i drafod materion gyda'r trigolion lleol yn arbennig i ddatrys materion yn ymwneud â chasglu gwastraff a'r pryderon cysylltiedig â lorïau bin a darparwyr. Nododd yr is-bwyllgor fod yr ymgeisydd yn fodlon lleihau ei oriau trwyddedig i 1700 yn hytrach na 1730 er mwyn cyfyngu ar effeithiau posib eiddo cyfagos. Rhoddwyd sylw yn y gwrandawiad i faterion eraill megis argaeledd toiledau a gweithredu polisi dim gwydr. Fel gyda phob trwydded sydd yn cael ei ganiatáu, os bydd unrhyw

broblemau'n codi mewn cysylltiad â'r egwyddorion trwyddedu yna bydd y Ddeddf yn caniatáu i unrhyw drwydded gael ei chyfeirio am adolygiad.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** amlygwyd bod yr ymgeisydd wedi darparu manylion o'r camau i'w cymryd i sicrhau na fyddai alcohol yn cael ei werthu i rai dan oed a bydd y rhain yn cael eu cynnwys fel amodau ar y drwydded. Nododd yr Is-bwyllgor hefyd fod y safle wedi elwa o nifer o Hysbysiadau Digwyddiadau Dros Dro dros y 12 mis diwethaf ac ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ac ni adroddwyd arnynt o dan benawdau'r amcanion trwyddedu yn ystod y digwyddiadau hyn.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i’r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o’r fath drwy roi rhybudd o apêl i’r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â’r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau’r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:40pm

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**Chwefror y 7fed 2025**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Gwynfor Owen (Cadeirydd), Huw Rowlands ac Edgar Wyn Owen

**Swyddogion:** Sïon Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Elizabeth Williams (Heddlu Gogledd Cymru) a Moira Duell Parri (Swyddog Iechyd Amgylchedd)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO:**

**St Tudwals Inn, Abersoch**

Michelle Hazelwood Ar ran yr ymgeisydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adan Amgylchedd yn manylu ar gais am amrywiad trwydded eiddo St Tudwals, Abersoch. Cyflwynwyd y cais am amrywiad oherwydd gwaith adnewyddu mewnol ac allanol i'r eiddo ac i gymryd mantais o'r cyfle i adolygu cynnwys y drwydded bresennol. Ategwyd, ar wahân i'r newidiadau mewnol ac allanol, bod cais ar gyfer ychwanegu gweithgaredd trwyddedig o ddangos ffilmiau hefyd wedi ei gynnwys.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Tynnwyd sylw at ymateb a dderbyniwyd gan Gwasanaeth Llygredd, Gwarchod y Cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Er nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r amrywiad, roedd

sylwadau wedi eu cyflwyno ynglŷn â statws cynllunio'r maes parcio / gardd gwrw, defnydd yr ardal yma a'r potensial o gynnydd mewn sŵn gyda'r nos.

Cyflwynwyd sylwadau gan yr Heddlu yn nodi eu dymuniad i gynnwys amod ar y drwydded fyddai yn nodi na fydd plant o dan 16 oed yn cael dod mewn i'r safle / aros yno ar ôl 22:00 oni bai eu bod yn aros neu yn bwyta yn y gwesty ar Noswyl Nadolig a Nos Galan - hyn yn gyson a nosweithiau eraill y flwyddyn. Nodwyd hefyd bod yr Heddlu yn dymuno i'r ymgeisydd asesu lleoliad TCC o ystyried newid yng nghynllun y safle.

Roedd y swyddogion yn nodi y dylai'r Is-bwyllgor ystyried y sylwadau a dderbyniwyd gan argymell bod yr Is-bwyllgor yn caniatáu'r amrywiad cyn belled a bod yr ymgeisydd yn cytuno i gyfaddawd a awgrymwyd gan Swyddog Adran Gwarchod y Cyhoedd a sylwadau'r Heddlu.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

c) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:

- Bod cynllun y gwesty yn un agored, gyda ffocws ar gyfer teuluoedd
- Mewn ymateb i nifer o gynlluniau gwahanol i gefn yr adeilad a diffyg eglurhad o'r statws cynllunio, cyflwynwyd cynllun newydd oedd yn cyfateb i amodau a gofynion y drwydded bresennol
- Yn cytuno gydag amod yr Heddlu na fydd plant o dan 16 oed yn cael dod i mewn nac aros yn yr eiddo ar ôl 22:00 o'r gloch ac eithrio pan fyddant yn preswylio neu'n bwyta yn y gwesty ar Noswyl Nadolig a Nôs Galan
- Er yn derbyn bod cwynion sŵn wedi eu derbyn yn 2022/23 nid fu tor cyfraith yng nghyd-destun niwsans cyhoeddus ac mai pryderon oedd yma yn hytrach na chwynion swyddogol.
- Cytuno y bydd cynllun rheoli sŵn yn cael i ddarparu ac yn cael ei gyflwyno i'r Adran Iechyd yr Amgylchedd am gymeradwyaeth (o fewn 6 wythnos, os bydd yr amrywiad yn cael ei ganiatáu)
- Bydd y person trwyddedig yn gysylltiedig ag unrhyw weithredoedd ar y safle – yn gwirio lefelau sŵn, yn gwarchod yr ardal cefn ac yn rheoli sŵn posib o daflu gwastraff / poteli yn ystod oriau hwyr y nos
- Bod ffin y safle yn cefnu ar ardal breswyl ac felly bydd pob ymgais yn cael ei wneud i reoli sŵn
- Bod cais wedi ei wneud i gynnwys trwydded dangos ffilmiau, ond nid yw hyn yn un o brif nodweddion y busnes
- Bod buddsoddiad sylweddol i'r busnes gyda'r safle wedi ei adnewyddu'n chwaethus.
- Yr amodau wedi eu tynhau

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chapasiti y safle ar ddiwrnod prysur, nodwyd wrth ystyried gofod tu mewn a thu allan y safle, bydd lle i oddeutu 250 o bobl.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chwarae cerddoriaeth (o ystyried bod cerddoriaeth acwstig wedi ei chwarae ar y teras yn y gorffennol), nodwyd mai penderfyniad y person trwyddedig fydd dewis cerddoriaeth fyw, ond y bydd unrhyw ddarpariaeth cerddoriaeth angen cynllun rheoli sŵn addas sydd wedi ei gymeradwyo gan Iechyd yr Amgylchedd. Er yn derbyn bod hawl chwarae cerddoriaeth o dan Ddeddf Cerddoriaeth Byw, bydd rhaid sicrhau rheolaeth gadarn o sŵn i osgoi cwynion.

Mewn ymateb i bryderon mynediad i blant dan 16 oed ar y safle, nododd cynrychiolydd yr ymgeisydd na fydd plant o dan 16 oed yn cael dod i mewn nac aros yn yr eiddo ar ôl 22:00 o'r gloch ac eithrio pan fyddant yn preswylio neu'n bwyta yn y gwesty. Ategwyd bod hyn hefyd yn berthnasol i Noswyl Nadolig a Nos Galan yn unol ag amod Heddlu Gogledd Cymru.

d) Manteisiodd y Rheolwr Trwyddedu ar y cyfle i i grynhoi ei hachos, gan nodi ei bod yn;

- Rhannu pryderon mynediad plant dan 16 oed ar yr eiddo ac yn croesawu amod yr Heddlu bod Noswyl Nadolig a Nos Galan yn dilyn yr un rheolau a nosweithiau eraill y flwyddyn
- Croesawu bod y cynllun ardal tu allan wedi ei gytuno
- Croesawu bod trafodaethau a chyfaddawd wedi ei gyrraedd a bod yr amod cyflwyno cynllun rheoli sŵn yn cael ei gyfarch

dd) Ymneilltuodd cynrychiolydd yr ymgeisydd a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cygnor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNIAD: Caniatáu amrywio'r drwydded**

**Trwydded Arfaethedig**

**Dydd Sul/Sunday: 09:00 - 01:00**
**Dydd Llun/Monday: 09:00 – 01:00**
**Dydd Mawrth/Tuesday: 09:00 – 01:00**
**Dydd Mercher/Wednesday: 09:00 – 01:00**
**Dydd Iau/Thursday: 09:00 – 01:00**
**Dydd Gwener/Friday: 09:00 – 01:30**
**Dydd Sadwrn/Saturday: 09:00 – 01:30**

**Gweithgareddau Trwyddedadwy**

**Cyflenwi Alcohol ar ac oddi ar yr Eiddo :**

**Dydd Sul/Sunday: 10:00 - 00:00**
**Dydd Llun/Monday: 10:00 – 00:00**
**Dydd Mawrth/Tuesday: 10:00 – 00:00**
**Dydd Mercher/Wednesday: 10:00 – 00:00**
**Dydd Iau/Thursday: 10:00 – 00:00**
**Dydd Gwener/Friday: 10:00 – 01:00**
**Dydd Sadwrn/Saturday: 10:00 – 01:00**

**Amseriadau ansafonol:**
**Caniatáu gwerthu i breswylwyr 24 awr y dydd**
**Caniatáu gwerthu o 11:00 o'r gloch ar 31 Rhagfyr tan 00:00 ar y 1af o Ionawr**

**Cerddoriaeth wedi ei Recordio Tu Fewn :**

**Dydd Sul/Sunday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Llun/Monday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Mawrth/Tuesday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Mercher/Wednesday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Iau/Thursday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Gwener/Friday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Sadwrn/Saturday: 11:00 – 00:00**
**Lluniaeth yn Hwyr y Nos: Dan do :**

**Dydd Sul/Sunday: 23:00 - 00:00**
**Dydd Llun/Monday: 23:00 - 00:00**
**Dydd Mawrth/Tuesday: 23:00 - 00:00**
**Dydd Mercher/Wednesday: 23:00 - 00:00**
**Dydd Iau/Thursday: 23:00 - 00:00**
**Dydd Gwener/Friday: 23:00 - 00:00**
**Dydd Sadwrn/Saturday: 23:00 - 00:00**

**Cerddoriaeth Byw: Tu Fewn :**

**Dydd Sul/Sunday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Llun/Monday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Mawrth/Tuesday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Mercher/Wednesday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Iau/Thursday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Gwener/Friday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Sadwrn/Saturday: 11:00 – 00:00**

**Ychwanegu Gweithgaredd Ffilmiau: Tu Fewn :**

**Dydd Sul/Sunday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Llun/Monday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Mawrth/Tuesday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Mercher/Wednesday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Iau/Thursday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Gwener/Friday: 11:00 – 00:00**
**Dydd Sadwrn/Saturday: 11:00 – 00:00**

**Amodau:**

**Y cynllun diwygiedig i’w gynnwys ar y drwydded**

**Cynllun Rheoli Sŵn i’w ddarparu i Adran Iechyd yr Amgylchedd**

**Asesu lleoliad CCTV dan do a thu allan o ystyried newid yng nghynllun y safle.**

**Ni chaniateir i blant o dan 16 oed ddod i mewn nac aros yn yr eiddo ar ôl 22:00 o'r gloch ac eithrio pan fyddant yn preswylio neu'n bwyta yn y gwesty**

**Y mesurau ychwanegol, fel y nodir yn rhan M y cais, i'w cynnwys fel amodau.**

Yng nghyd-destun **Trosedd ac Anrhefn**, nid oedd gan yr Heddlu wrthwynebiad i’r newid yng nghynllun y safle nag i ychwanegu ffilmiau i’r gweithgareddau trwyddedig. Er hynny, roeddynt yn awgrymu bod yr ymgeisydd yn asesu lleoliad y TCC dan do a thu allan, o ystyried y newid yng nghynllun y safle.

Yng nghyd-destun materion **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hon.

Yng nghyd-destun **Atal niwsans cyhoeddus**, yn dilyn trafodaethau gyda’r ymgeisydd, roedd Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd wedi cytuno i dynnu’r gwrthwynebiad i’r cais yn ôl ar yr amod bod Cynllun Rheoli Sŵn yn cael ei gyflwyno i’r Gwasanaeth o fewn 6 wythnos, a’i gytuno gyda’r Gwasanaeth.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** roedd yr Heddlu yn derbyn yr amod i ganiatáu plant o dan 16 oed, sy’n aros yn y gwesty neu’n bwyta yno, i gael mynediad i’r eiddo neu i aros yno ar ôl 22:00. Roeddynt yn bryderus serch hynny am y sefyllfa ar Noswyl Nadolig a Nos Galan ac fe gytunodd yr ymgeisydd i’r amod yma fod yn berthnasol i’r adegau hynny hefyd.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i’r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o’r fath drwy roi rhybudd o apêl i’r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â’r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau’r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 12:00 a daeth i ben am 12:45

.